**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Sepsis**

**Dyddiad:** 2 Gorffennaf 2019

**Amser:** 12.15 - 13.45

**Yn bresennol**: Angela Burns AC, Caroline Jones AC, Michael Burns, Terence Canning (UKST), Dr Paul Morgan, Greg Lloyd (Ambiwlans Cymru), Susan Tuckett (Ambiwlans Cymru), Callum Hughes (Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru), Razaque Roape (swyddog caffael y Cynulliad) Steve Day, Bernie Day, Joy James, John James.

1. Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
   -Ail-etholwyd Angela Burns AC fel cadeirydd
   -Etholwyd Caroline Jones AC fel dirprwy gadeirydd
   -Ail-etholwyd Terence Canning fel yr ysgrifenyddiaeth

2. Adroddiad ariannol

   -Dim costau

3. Cyflwyniad gan Greg Lloyd a Susan Tuckett ar ddull Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o ymdrin â sepsis.

   - Rhoddodd ST drosolwg o sut mae galwadau ffôn yn cael eu derbyn, eu trefnu a'u blaenoriaethu drwy'r System Dosbarthu ar sail Blaenoriaeth Feddygol er mwyn penderfynu ble orau i anfon ei ambiwlansys.

   - Rhoddodd GL drosolwg o sut mae staff Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn trin ac yn blaenoriaethu cleifion gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a sut maent yn cyfathrebu â chanolfannau eilaidd a thrydyddol drwy'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS).

   - Rhoddodd GL drosolwg o raglenni gwella Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

- Siaradodd GL/ST am arbrawf Gwasanaeth Ambiwlans Dwyrain Lloegr/System Dosbarthu ar sail Blaenoriaeth Feddygol sy'n edrych ar nodi galwadau i'r ddesg gymorth glinigol pan fo claf yn cyflwyno un o'r canlynol:

- Cael diagnosis diweddar o haint gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd
- Croen oer, gwelw a llaith neu smotiog
- Anadlu'n gyflymach nag y byddai fel arfer
- Methu pasio wrin yn ystod y 18 awr ddiwethaf
- Triniaeth neu lawdriniaeth canser/cemotherapi ddiweddar

4. Trafodaeth agored a chwestiynau.

5. Penderfynodd y Grŵp aros am ganlyniadau adroddiad Gwasanaeth Ambiwlans Dwyrain Lloegr cyn gwneud unrhyw benderfyniadau eraill.

6. Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei lunio yn ystod tymor yr hydref ac y byddai argymhellion yn cael eu gwneud i Lywodraeth Cymru.

7. Unrhyw fater arall

**13.45** Cloi'r cyfarfod